

PRIFYSGOL BANGOR

PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH

Cyfarfod: 22 Mai 2013

Preseanol: Dr D Assinder, Miss S Barnes, Mr R Dart, Mr D Fordham, Mr W Jones, Dr J Latchford, Mrs L Meadows, Ms C Monks, Dr L Murphy, Mr J Patton, Ms E Riches, Mr D Roberts, Dr D M Roberts, Dr G Roberts, Dr H Roberts, Mr S Roberts, Mr I Salisbury, Yr Athro C Tully, Mr G W Jones (Ysgrifennydd)

Ymddiheuriadau: Mr A Butcher, Ms L Fowlie, Dr L Shelley, Yr Athro P Spencer, Yr Athro T Woodman

418. COFNODION

Cymerwyd fod cofnodion y cyfarfod diwethaf, a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2013, wedi'u darllen, ac fe'u cadarnhawyd a'u llofnodi.

419. MATERION YN CODI

a) Cofnodion 413 (ii) Gofynion Diogelwch Pathogenau a Thocsinau:

Cyn bo hir gofynnir i golegau adolygu'r rhestr ar-lein o gemegolion, asiantau a deunyddiau arbenigol a chadarnhau, erbyn canol Hydref 2013, pa ddeunyddiau ar y rhestr sydd ganddynt neu y maent yn bwriadu eu defnyddio.

b) Cofnod 415 (i) Hyfforddiant (diffibrilwyr):

Dosbarthwyd rhestr yn nodi lleoliad preseanol y diffibrilwyr yn y brifysgol.

420. Y GRŴP TASG GWEITHREDU DIOGELWCH

Mae'r Grŵp Tasg wedi cyfarfod bedair gwaith ers y cyfarfod diwethaf. Adroddwyd fod y brifysgol yn cadw golwg ar y sefyllfa ac yn adrodd yn ôl mewn perthynas ag ymyriad gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch mewn busnes lleol lle'r oedd aelod o staff y brifysgol yn gweithio hefyd.

Mae cryn dipyn o waith wedi cael ei wneud gyda Swyddfa'r Neuaddau, a'r Ganolfan Addysg Ryngwladol mewn perthynas â diogelwch myfyrwyr rhyngwladol, yn enwedig ym meysydd tân ac offer trydanol. Mae cynlluniau yn cynnwys cynyddu negeseuon iechyd a diogelwch mewn neuaddau, diweddarau'r Sgyrsiau Croeso a'r Llawlyfrau Myfyrwyr a darparu ceblau estyn trydanol addas i fyfyrwyr rhyngwladol sy'n byw yn y neuaddau

a) Polisi Mamau Newydd a Beichiog Diwygiedig

Cynigiwyd polisi diwygiedig a nodwyd mai'r bwriad pennaf oedd moderneiddio polisi gwreiddiol 1995 er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn terminoleg a threfniadau'r brifysgol, a hyrwyddo ymhellach bwysigrwydd y broses asesu risg. Mae'r Polisi yn cael ei ategu gan y Llawlyfr Mamau Newydd a Beichiog a chan wybodaeth arbenigol ynghylch risgiau allweddol.

Ystyriwyd y polisi drafft gan y pwyllgor a chodwyd cwestiwn a fyddai myfyrwyr yn sylweddoli pa gamau y mae angen iddynt eu cymryd a pha gefnogaeth sydd ar gael. Awgrymwyd y dylid gwella'r wybodaeth sydd ar gael ar y wefan Gwasanaethau Myfyrwyr ac mewn sesiynau cynefino mewn ysgolion a cholegau er mwyn tanlinellu'r angen i roi gwybod i staff mor fuan â phosib.

Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i gymeradwyo'r polisi ac i newid y teitl Mamau Newydd a Beichiog yn y Gwaith ac Wrth Astudio.

b) **Adolygiad Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch**

Hysbyswyd y pwyllgor o adolygiad sy'n cael ei gynnal gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) ar hyn o bryd ar drefniadau'r brifysgol ar gyfer asesu risgiau i staff sydd wedi eu lleoli neu'n gweithio'n bennaf gyda chyflogwyr eraill. Y rheswm dros gynnal yr ymyriad hwn oedd oherwydd ymchwiliad a champau gweithredu dilynol gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch mewn busnes lleol lle'r oedd aelod o staff y brifysgol yn gweithio fel rhan o gytundeb Partneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth (KTP).

Bydd y brifysgol yn cwblhau ei ymchwiliad ar ôl adolygiad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o drefniadau a dulliau gweithredu'r brifysgol. Yn y cyfamser ailgyflwynwyd Holiadur Iechyd a Diogelwch i wirio trefniadau iechyd a diogelwch ac aseswyd goblygiadau ehangach yr ymyriad hwn gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i staff sy'n gweithio i ffwrdd o'r brifysgol mewn gweithleoedd dan ofal cyflogwyr eraill.

Yn dilyn trafodaeth **argymhellwyd bod grŵp bach yn cael ei sefydlu i adnabod amgylchiadau lle mae staff sydd wedi eu lleoli mewn sefydliadau eraill yn gweithio heb oruchwyliaeth uniongyrchol y brifysgol. Argymhellwyd hefyd** os bydd staff yn gweithio i ffwrdd o'r brifysgol neu yng ngweithle partner, bod hyn yn cael ei nodi wrth eu recriwtio a bod eu manylion yn cael eu trosglwyddo i bersonél Iechyd a Diogelwch y coleg neu'r adran berthnasol iddynt asesu'r sefyllfa.

421. ADRODDIAD AR YR ARCHWILIAD O GOLEG Y CELFYDDYDAU A'R DYNIAETHAU

Darparwyd crynodeb o'r archwiliad diweddar o Systemau Rheoli Iechyd a Diogelwch yng Ngholeg y Celfyddydau a'r Dyniaethau a nodwyd yn arbennig fod y coleg wedi cael sgôr 'da' ar yr asesiad meintiol a 'da iawn' ar yr asesiad ansoddol.

Nodwyd y bydd SEG yn gofyn am wybodaeth bellach ynghylch sut mae'r coleg yn sicrhau iechyd a diogelwch plant sydd yn mynychu gweithgareddau'r coleg a gynhelir yn y gymuned.

Ystyriodd y pwyllgor yr adroddiad a diolchodd i'r coleg am ei waith a'i gefnogaeth i iechyd a diogelwch.

422. ADRODDIAD AR DDIOGELWCH MYFYRWYR GAN UNDEB Y MYFYRWYR

Rhoddodd Cyfarwyddwr Undeb y Myfyrwyr adroddiad llafar a nodwyd yr eitemau canlynol:

- i. Chybiau a chymdeithasau:* Penodwyd Cydlynnydd Clybiau a Chymdeithasau i gefnogi'r 150 o glybiau a chymdeithasau. Mae'r gwaith hyd yn hyn wedi cynnwys adolygiadau o asesiadau risg clybiau'r Undeb Athletau ac mae archwiliadau'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd yn erbyn y gofynion manwl sydd yn yr asesiadau hyn. Hefyd lluniwyd rhestr gynhwysfawr o offer sy'n nodi trefniadau cynnal a chadw offer penodol.
- ii. Gwefan:* Mae gwefan Undeb y Myfyrwyr yn cael ei huwchraddio gan y Gwasanaethau TG. Mae hyn yn cynnwys cynnig gwybodaeth iechyd a diogelwch ar-lein i aelodau Clybiau a Chymdeithasau perthnasol.
- iii. Fideos Iechyd a diogelwch:* Mae fideos diogelwch ar bynciau penodol yn cael eu cynhyrchu a byddant ar gael ar y wefan newydd.
- iv. Hyfforddiant:* Bydd yr hyfforddiant a roddir i bwyllgorau clybiau a chymdeithasau'n cael ei adolygu. Bydd hyn yn sicrhau bod aelodau a benodir i'r pwyllgorau yn meddu ar y sgiliau priodol i gyflawni eu dyletswyddau.
- v. Goddef Dim:* Gwnaed llawer iawn o waith i godi ymwybyddiaeth o wahaniaethu a chael gwared arno.
- vi. Gwobrau / Grantiau:* Derbyniodd Undeb y Myfyrwyr grant TAITH £5k, a'i ddefnyddio i

brynu pymtheg o feiciau i'w benthyca i fyfyrwyr. O ganlyniad enillwyd Gwobr Effaith Werdd gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr i'r project. Mae TAITH hefyd wedi gwahodd Undeb y Myfyrwyr i wneud cais am grantiau eraill.

423. ADRODDIADAU IECHYD A DIOGELWCH BLYNYDDOL (2012)

Ystyriwyd Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol 2012 a nodwyd y pwyntiau allweddol canlynol:

- i. **Damweiniau a Digwyddiadau:*** Adroddwyd am 76 o ddamweiniau a oedd yn cynnwys anafiadau; 65 gan staff ac 11 gan fyfyrwyr sy'n 'ganolig' o'i gymharu â meincnodau Cenedlaethol. Prif achosion damweiniau o hyd yw trafod llwythi a baglu, llithro a syrthio.
- ii. **Absenoldeb Salwch:*** Cofnodwyd 4.7 o ddiwrnodau absenoldeb salwch fesul aelod staff CALI yn 2012. Nodwyd er bod cyfradd y brifysgol yn cymharu'n ffafriol â meincnodau cenedlaethol bod gwahaniaethau'n parhau yn y ffordd y mae gwahanol brifysgolion yn adrodd a chofnodi absenoldebau. Mae Cymdeithas Cyflogwyr y Prifysgolion a Cholegau (UCEA) wedi datblygu meincnodau adrodd yn ddiweddar i safoni sut mae prifysgolion yn adrodd ar absenoldeb salwch a'r gobaith yw y bydd ystadegau'r sector yn y dyfodol yn fwy cadarn.
- iii. **Achosion Absenoldeb:*** Y ddau brif gategori o absenoldeb salwch ardstyedig yn y brifysgol o hyd yw cyflyrau cyhyrysgerbydol a seicolegol, sydd yn debyg i'r darlun yn genedlaethol. Nodwyd bod yr agenda iechyd yn cael ei ddatblygu i adlewyrchu llawer o'r achosion dros absenoldeb.
- iv. **Larymau tân yn canu:*** Bu gostyngiad bach o ddau i 162 yn yr achosion hyn. Am y tro cyntaf mae mwy o achosion o ganu larymau tân mewn adeiladau academiaidd a gweinyddol (85) nac mewn neuaddau (77). Mae'r duedd ar i lawr yn y neuaddau'n adlewyrchu'r ymdrechion a wnaed i wella systemau tân ac addysgu myfyrwyr sy'n byw yno. Mae cyfradd yr achosion o seinio larymau tan yn y neuaddau preswyl sef 17.9 fesul 1000 o declynnau, yn eithriadol o'i gymharu â'r gyfradd genedlaethol o 61.4.
- v. **Tanau:*** Nid adroddwyd am unrhyw danau yn 2012.
- vi. **Camau Gorfodi:*** Ni chymerwyd unrhyw gamau gorfodi yn 2012.
- vii. **Hawliadau sifil (Cysylltiedig ag Iechyd a Diogelwch):*** Lanswyd dau hawliad sifil yn 2012; y naill gan aelod o'r cyhoedd a'r llall gan aelod staff.
- viii. **Hyfforddiant Staff:*** Cafwyd gostyngiad yn nifer y staff yn dilyn cyrsiau Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch ffurfiol yn 2012.
- ix. **NWWHSG:*** Unwaith eto cafodd y grŵp ei gydnabod am ei waith gyda chyflogwyr lleol ar ffurf Gwobr Arian gan Safety Groups UK mewn cyflwyniad yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Adroddiad Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch:

- x. **Tŷ Gobaith:*** Codwyd dros £12,000 gan staff a myfyrwyr i gefnogi elusen Tŷ Gobaith.
- xi. **Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol Diogel, Effeithiol, o Ansawdd Da (SEQQOHS):*** Mae'r brifysgol yn parhau i fod wedi ei hachredu gan SEQOHS yn dilyn ei adolygiad blynyddol.
- xii. **Iechyd Meddwl yn y Gwaith:*** Dechreuodd gwaith codi ymwybyddiaeth yn ystod Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth Straen. Cynhaliwyd arddangosfa a daeth amryw o gyrff cefnogi ynghyd. Cynhaliwyd adolygiad o'r Polisi Straen yn y Gweithle gan Adnoddau Dynol, adolygydd y polisi a'r arweiniad cysylltiedig a threfnwyd rhaglen o Sgyrsiau Cydbwysedd Bywyd Gwaith.

- xiii. **Osgoi Clefyd y Galon:** Cyflwynwyd Rhaglen 4 wythnos Calon Iach, oedd yn cynnwys sgyrsiau a gweithgareddau iechyd amser cinio. Cafodd y cynllun hwn dipyn o gefnogaeth gan arbenigwyr a chroeso gan y rhai a gymerodd ran.
- xiv. **Cadw golwg gyffredinol ar iechyd / Profion Iechyd:** Rydym yn dal i gadw golwg gyffredinol ar staff sydd yn wynebu'r risg mwyaf yn sgil eu gweithgareddau yn y gwaith. Cynigir profion iechyd i bob aelod newydd o staff er mwyn adolygu, cefnogi a gwella eu hiechyd a'u ffordd o fyw; Hefyd cynigir rhaglen dreigl o Brofion Iechyd.
- xv. **Cefnogaeth i staff sydd yn absennol oherwydd salwch:** Rydym yn dal i gynnal cyfarfodydd lles gyda staff sydd yn absennol o'u gwaith oherwydd salwch tymor hir er mwyn sicrhau bod rhwystrau i ddychwelyd i'r gwaith yn cael eu symud.
- xvi. **Arolwg radon:** Parhaodd yr Arolwg Radon yn 2012 gyda 42 monitor ychwanegol yn cael eu gosod mewn adeiladau yn y brifysgol oedd heb eu mesur o'r blaen i fonitro ac i wirio effeithlonrwydd gwaith lliniaru radon.
- xvii. **Meithrinfa Plant:** Yn dilyn y digwyddiad E.Coli yn 2011 cynhaliwyd adolygiad o drefniadau rheoli haint gan ddefnyddio Pecyn Archwilio a ddatblygwyd gan yr Asiantaeth Amddiffyn Iechyd. Dim ond mân welliannau a nodwyd.
- xviii. **Polisi a Dulliau Gweithredu Gwaith Maes:** Datblygwyd Polisi Gwaith Maes a chanllawiau pwrpasol yn unol â gofynion UCEA. Bydd gwaith ymgynghori'n dechrau gyda cholegau perthnasol yn haf 2013.
- xix. **Ymwybyddiaeth o Beryglon Labordai:** Diolchwyd i Dr Latchford am ei ymdrechion i godi ymwybyddiaeth o ddiogelwch cyffredinol yn y labordy ac i roi hyfforddiant ymwybyddiaeth o beryglon labordai i staff domestig, staff diogelwch a chontractwyr a benodir gan Ystadau a Chyfleusterau.
- xx. **Cefnogaeth Gyffredinol:** Mae cefnogaeth yn dal i gael ei rhoi i golegau ac adrannau ar ffurf datblygu a symleiddio dogfennau iechyd a diogelwch a darparu cymorth ymarferol cyffredinol i alluogi cynnal gweithgareddau.

Ar ôl trafod, cytunwyd y bydd adroddiadau yn y dyfodol yn cael eu seilio ar y flwyddyn academaidd i adlewyrchu newidiadau'n genedlaethol, gydag Adroddiad Interim yn cael ei gyflwyno ym mis Tachwedd 2013 ac Adroddiad Llawn o fis Tachwedd 2014.

424. ADRODDIAD AR DDIOGELWCH YR YSTÂD

Darparwyd adolygiad o weithgareddau Ystadau a Chyfleusterau a nodwyd y canlynol:

- i. **Pontio:** Mae Prif Gontractwr y safle yn parhau i roi cyfle i fyfyrwyr Coleg Llandrillo i ymweld â safle Pontio. Adroddwyd am un digwyddiad a allai fod wedi bod yn un difrifol ar y safle a chynhaliwyd ymchwiliad cynhwysfawr a rhoddwyd mesurau lliniaru ac atal pellach yn eu lle.
- ii. **SEACAMS:** Rhagwelir y bydd y gwaith ar y datblygiad mawr arfaethedig ar gampws Porthaethwy yn dechrau ym mis Mehefin 2013.
- iii. **Safle'r Santes Fair:** Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda bidwyr i ddatblygu pentref preswyl 600 o ystafelloedd o dan Fenter Cyllid Preifat. Oherwydd newid yn y ddeddfwriaeth, bydd systemau chwistrellu dŵr yn cael eu gosod fel rhan o'r project hwn:
- iv. **Maes Glas:** Bydd gwaith atgyweirio helaeth i uwchraddio cyfleusterau presennol yn dechrau yn yr haf. Mae'r gwaith yn cynnwys gorchuddio'r cyrtiau awyr agored amlbwrpas.
- v. **Cofrestr Risg a Bidiau:** Mae'r gwaith o lunio Cofrestr 2013 / 2014 yn tynnu at ei derfyn.

- vi. *Mynediad*: Cafwyd cymeradwyaeth i ddechrau gwaith uwchraddio helaeth ar draws y brifysgol er mwyn gwella mynediad.
- vii. *Prif Adeilad y Celfyddydau*: O gofio am y tân diweddar yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, cynhelir adolygiad diogelwch tân cyn hir ar adeiledd Prif Adeilad y Celfyddydau sydd yn adeilad Gradd II rhestredig.
- viii. *Rheoli Traffig*: Mae trafodaethau ar y gweill gyda Chyngor Gwynedd ar hyn o bryd ynghylch rheoli traffig ar Ffordd Ffriddoedd a Lôn Cariadon.

425. UNRHYW FATERION ERAILL

- i. Mynegwyd gwerthfawrogiad o waith rhagorol Staff Diogelwch y Brifysgol a wnaeth adfywio aelod o'r cyhoedd a gymerwyd yn wael ar dir y brifysgol. Nodwyd mai dyma'r trydydd tro yn y blynyddoedd diwethaf i staff y brifysgol achub bywyd aelod o'r cyhoedd ar ei thir, sy'n adlewyrchu'r hyfforddiant rhagorol a roddir i staff ynghyd â'u proffesiynoldeb.